# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013** |
| Amser: | **08:30 - 08:40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y bydd cynnig i newid aelodaeth y blaid Lafur o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, sef dewis Ann Jones yn lle Ken Skates, yn cael ei wneud ar ôl y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ddydd Mawrth.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Llywydd yn cynnig y dylai'r ddau gynnig ddydd Mercher sy'n ymwneud â phenodiadau i Swyddfa Archwilio Cymru a chydnabyddiaeth ariannol ei aelodau gael eu grwpio ar gyfer trafodaeth, ond gyda phleidleisiau ar wahân.

Ddydd Mawrth, byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 23 Hydref 2013**

- Cynnig i ddirymu Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 (30 munud)

**Dydd Mercher 13 Tachwedd 2013**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

## 4 Pwyllgorau

4(i) Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Cais i gynnal cyfarfod oddi ar y safle

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ffurfiol yn Llanfair-ym-Muallt ar 24 Hydref 2013.

## 5 Deddfwriaeth

5(i) Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Bil Gofal

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm atodol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y ddau Femorandwm sy'n ymwneud â'r Bil Gofal erbyn 21 Tachwedd 2013, er mwyn i'r ddau Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Tachwedd 2013.

### UNRHYW FUSNES ARALL

Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa Aelodau, yn dilyn nifer y cwestiynau sydd wedi'u tynnu'n ôl yn ddiweddar, os bydd Aelodau'n gwybod na fyddant yn bresennol yn y Cynulliad ar ddiwrnod penodol, y dylent dynnu eu henwau'n ôl o'r balot, neu o leiaf beidio â chyflwyno cwestiwn ar gyfer y diwrnod hwnnw. Mae tynnu cwestiynau'n ôl ar ôl i'r Swyddfa Gyflwyno gynnal y balot a'r hapddewis yn atal Aelodau eraill rhag cael y cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidogion.